## Trosolwg

Mae’r safon hon yn cynnwys tynnu pedolau i asesu traul y bedol a’r carn. Mae’r asesiad yn caniatáu gwerthuso cydymffurfio neu anomaleddau cerddediad sydd yn rhoi gwybodaeth werthfawr sydd yn gallu dylanwadu ar ofal carnau a chael ei defnyddio i ddatblygu’r cynllun gofal carnau.

Er mwyn tynnu pedolau ac asesu traul bydd angen mynd at y ceffyl a’i drin mewn ffordd sydd yn lleihau straen a braw, gan weithio mewn safle sydd yn ddiogel ar gyfer y ceffyl ac unrhyw un sydd yn gysylltiedig â’r gwaith yn cynnwys chi eich hun. Bydd angen i chi dynnu’r pedolau gan ddefnyddio’r offer cywir a pharatoi’r carn er mwyn iddo allu cael ei archwilio’n drwyadl.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o’ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni’r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu eich dyletswydd gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid, codau ymarfer a pholisïau’r busnes.

Gall y person cyfrifol fod yn unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros y ceffyl fel y perchennog, hyfforddwr, gwas stabl neu ymarferydd gofal carnau.

Mae’r safon hon ar gyfer ymarferwyr Gofal Carnau Ceffylau y DU.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*